

# CYNGOR TREF CYDWELI

## TROSOLWG O'R TENDR AR GYFER RHEOLAETH PRYDLES

### NEUADD CHWARAEON A CHYFLEUSTERAU ATODOL

#### CANOLFAN TYWYSOGES GWENLLIAN

##### YN

#### HILLFIELD VILLAS, CYDWELI.

## **1 CYFLWYNIAD**

- 1.1 Mae Canolfan Tywysoges Gwenllian yn cynnwys dau adeilad cysylltiedig sy'n gartref i'r neuadd chwaraeon a chyfleusterau atodol ynghyd â swyddfeydd Cyngor Tref Cydweli.
- 1.2 Y safle yw'r adeiladau a thir a amlinellir mewn coch ar gynllun y safle a geir yn Atodiad A. Mae'r tir ychwanegol a amlinellir mewn glas i'w gynnwys o fewn y brydles os cytunir ar hynny gan y partïon. Ni fydd yr adeiladau a thir a amlinellir mewn gwyrdd yn rhan o'r brydles, fe'i cedwir gan Gyngor Tref Cydweli at ddibenion ei hun. **Noder bod y cynlluniau hyn yn fynegol ar hyn o bryd ac yn agored i drafodaeth a chytundeb cyn arwyddo'r brydles.**
- 1.3 Adeiladwyd y brif Neuadd Chwaraeon cyn yr agoriad swyddogol yn y flwyddyn 2000, a'i rhedwyd gan ymddiriedolaeth sydd yn awr wedi ei ddiddymu. Estynnwyd cefn yr adeilad drwy adeiladu estyniad llawr cyntaf a wasanaethir gan lifft allanol a grisiau mewnol yn 2008. Yn 2016, dechreuwyd ar godi'r adeiladau cyfagos sy'n gartref i gyfleusterau atodol ased y Neuadd, ynghyd â swyddfeydd a stordy parhaol ar gyfer Cyngor Tref Cydweli. Ceir gafael ar gynlluniau'r ddau adeilad yn Atodiad B.

## **2 BWRIAD**

- 2.1 Bydd y cyfleuster yn cael ei osod ar y sail y caiff y ganolfan gymunedol gyfredol ei hatgyfnerthu a'i ehangu i feithrin adnodd cymunedol cynaliadwy a llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar gymuned, yn seiliedig ar geisio ychwanegu at yr amrywiaeth o ddiwyddiadau a gweithgareddau yn y ganolfan gymunedol, drwy gynnig ystod o gyfleusterau at ddefnydd cyhoeddus a phreifat, cwrdd ag anghenion lleol ar gyfer gwirfoddoli gweithgar a nodi bylchau yn y ddarpariaeth leol.
- 2.2 Cynigir y bydd y Cwmni Rheoli llwyddiannus yn derbyn prydles hirdymor ar gyfer yr adeilad – a'r tymor i'w gytuno rhwng y ddau barti. Dan delerau'r brydles, bydd Cyngor Tref Cydweli yn

gyfrifol am yswirio, atgyweirio a chynnal a chadw amlen allanol a strwythurol yr adeiladau yn unig. Bydd y Cwmni Rheoli yn gyfrifol am dalu'r holl dreuliau a biliau ar gyfer yr eiddo i gynnwys contractau gwasanaeth ac yswiriannau priodol i dalu am osodiadau a nodweddion tir o dan ei gylch gwaith, yswiriant atebolrwydd trydydd parti ayb.

2.3 Caniateir i'r Cwmni Rheoli weithredu system Drwyddedu i ymgysylltu â defnyddwyr tymor hir eraill, megis adran datblygu chwaraeon Cyngor Sir Gaerfyrddin, sydd wedi dangos diddordeb mewn bloclogi ar gyfer darparu cyfleusterau i'r gymuned leol er mwyn cwrdd gyda'u targedau llesiant.

2.4 Mae unigolyn preifat wedi mynegi diddordeb mewn adeiladu campfa. Cafwyd diddordeb blaenorol gan grŵp gweithredu/gwirfoddol ar gyfer darparu cyfleuster sgrialu.

### 3 **Y TENDR**

3.1 Bydd eich dogfennaeth dendro yn cynnwys y dogfennau ateb tendr, sy'n cynnwys templed cynllun busnes, a ddarperir yn Atodiad C.

3.2 Diben y pris a gyflwynwch ar gyfer y rhent blynyddol yw caniatáu i bremiwm o \_\_\_% o'r elw net blynyddol gael ei dalu i Gyngor Tref Cydweli ar ddiwedd cyhoeddi cyfrifon ardystiedig pob blwyddyn fasnachu. (Dylid gwneud Cyfrifon Ardystiedig ar gael i Gyngor Tref Cydweli). **Mae'r eitem hon yn agored i drafodaeth.**